Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYHOEDDIAD, DOGFENNU

# Perfformiad awdurodau tân ac achub: Ebrill 2023 i Fawrth 2024

Gwybodaeth am danau a fynychwyd, marwolaethau o ganlyniad i danau, galwadau ffug, digwyddiad gwasanaethau arbennig a thanau mewn anheddau o fewn rheolaeth ar gyfer Ebrill 2023 i Fawrth 2024.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 28 Tachwedd 2024

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 28 Tachwedd 2024

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/perfformiad-awdurodau-tan-ac-achub-ebrill-2023-i-fawrth-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys


## Cyflwyniad

## Lleihau risg a diogelwch cymunedol

## Ymateb effeithiol

## Manylion cyswllt



**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/perfformiad-awdurodau-tan-ac-achub-ebrill-2023-i-fawrth-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cyflwyniad

Mae’r ystadegau hyn yn ymwneud â’r gwasanaeth tân ac achub rhwng mis Ebrill 2023 a diwedd mis Mawrth 2024.

Adroddiad blynyddol yn cyflwyno gwybodaeth am danau a fynychwyd, anafiadau o ganlyniad i danau, galwadau ffug, digwyddiadau gwasanaethau arbennig a thanau mewn anheddau o fewn rheolaeth.

Yn 2007, cyflwynwyd Fframwaith Rheoli Perfformiad Llywodraeth Cymru ar gyfer mesur perfformiad Awdurdodau Tân ac Achub. **Mae'r data, gan gynnwys ar lefel y Gwasanaethau Tân ac Achub, yn cael eu cyhoeddi ar StatsCymru yn nhabl dangosyddion perfformiad y gwasanaethau tân**.

Mae Awdurdodau Tân ac Achub yn cyhoeddi eu data perfformiad ar eu gwefannau eu hunain, sydd ar gael yn y dolenni isod:

**Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru**

**Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru**

**Awdurdod Tân ac Achub De Cymru**

Mae rhagor o wybodaeth am gasglu data ac ansawdd ar gael yn ein **hadroddiad ansawdd ar ystadegau tân**.

Mae'r dangosyddion perfformiad wedi'u grwpio o dan ddwy thema: 'lleihau risg a diogelwch cymunedol' ac 'ymateb effeithiol'.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/perfformiad-awdurodau-tan-ac-achub-ebrill-2023-i-fawrth-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Lleihau risg a diogelwch cymunedol

## Dangosydd cyntaf (FRS/RRC/S/001)

- Y tanau yr aethpwyd iddynt am bob 10,000 o'r boblogaeth.
- Y galwadau ffug yr aethpwyd iddynt am bob 10,000 o'r boblogaeth.
- Y gwrthdrawiadau traffig ffyrdd yr aethpwyd iddynt am bob 10,000 o'r boblogaeth.
- Y digwyddiadau eraill yr aethpwyd iddynt am bob 10,000 o'r boblogaeth.

## Ail ddangosydd (FRS/RRC/S/002)

Cyfanswm nifer:

- y marwolaethau a'r anafiadau a ddeilliodd o danau am bob 100,000 o'r boblogaeth
- y marwolaethau a'r anafiadau a ddeilliodd o danau damweiniol am bob 100,000 o'r boblogaeth

# Ymateb effeithiol

## Trydydd dangosydd (FRS/EFR/S/003)

Canran y tanau mewn anheddau a gyfyngwyd i'r ystafell lle cychwynnodd y tanau.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/perfformiad-awdurodau-tan-ac-achub-ebrill-2023-i-fawrth-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

### Y prif ganlyniadau ar gyfer 2023-24

- Bod Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru wedi mynychu 9,700 o danau, sy’n cyfateb i 31 o danau fesul 10,000 o’r boblogaeth. Mae hyn yn ostyngiad o 12% o gymharu â 2022-23. Ers i gyfrifoldeb am wasanaethau tân ac achub gael ei ddatganoli i Gymru yn 2004-05, mae’r nifer a’r gyfradd wedi mwy na haneru.
- Roedd yna 18,298 o alwadau ffug a fynychwyd yn 2023-24, sy'n cyfateb i 58 fesul 10,000 o'r boblogaeth ac yn gynnydd o 10% o gymharu â 2022-23.
- Aeth yr Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru i 1,907 o wrthdrawiadau traffig ffyrdd yn 2023-24, sef 6 am bob 10,000 o'r boblogaeth a chynnydd o 3% o'i gymharu â 2022-23.
- Aeth yr Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru i 8,149 o Ddigwyddiadau Gwasanaeth Arbennig nad oeddent yn wrthdrawiadau traffig ffyrdd yn 2023-24, sef 26 am bob 10,000 o'r boblogaeth a chynnydd o 3% o'i gymharu â 2022-23.
- Roedd 119 o farwolaethau ac anafiadau o ganlyniad i danau yng Nghymru (4 i bob 100,000 o'r boblogaeth). Mae hyn yn ostyngiad o 11% yn nifer y rhai a anafwyd o gymharu â 2022-23.
- Roedd 100 o farwolaethau ac anafiadau oherwydd tanau yng Nghymru (3 am bob 100,000 o'r boblogaeth).  Mae hyn yn ostyngiad o 12% yn nifer y bobl a anafwyd o'i gymharu â 2022-23. Y bobl hyn a anafir yw'r rhai sy'n cael eu hanfon i'r ysbyty ac nid ydynt yn cynnwys y rhai sy'n cael cymorth cyntaf neu sy'n cael eu hanfon am wiriadau rhagofalus.
- Roedd 85% o danau mewn anheddau yng Nghymru wedi'u dal yn yr ystafell lle dechreuodd y tân.

# Manylion cyswllt

Ystadegydd: Claire Davey

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/perfformiad-awdurodau-tan-ac-achub-ebrill-2023-i-fawrth-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

E-bost: **ystadegau.cynhwysiant@llyw.cymru**

Cyfryngau: 0300 025 8099

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/perfformiad-awdurodau-tan-ac-achub-ebrill-2023-i-fawrth-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.